Felindre

Ar lannau'r Drysgeirch saif y rhod
Saith arall uwch y Gwendraeth
Melinau blawd a phandai cu
Ar feysydd ein magwraeth.

Deuddeg awr o drafod gwlân
I greu y brethyn melyn
A'r llwch fel sêr uwch linynnau'r gwŷdd
Fel tannau tyn hen delyn

Gweithio, breuddwydio wrth weithio.
Gweithio, breuddwydio,
Wrth y gwŷdd yn y felin wlân.

Fe red y Drysgeirch ers cyn co'
Ni fydda'i fyth yn pallu
Mewn hafau crasboeth yn ffynnu'n ffri
Mewn gaeaf byth yn rhewi.

Fe saif pob gwydd yn dyst i'r oll
Y trafod dwys a'r chwerthin
Gwêl yr hanes wedi ei weu
Ym mhatrwm cudd y brethyn.

© Geraint Griffiths 2005